



M. 208.

576 W. W. E. L.

Nov 5 1-7

Presented to the Historians Office

by Elder Dan Jones,

and furnished by his wife, at his request,  
during his absence. Aug 30. 1855

Tracts by Dan  
Jones

&  
The Millennial Prophet  
- Vol 2 -

Digitized by the Internet Archive  
in 2011 with funding from  
Corporation of the Presiding Bishop, The Church of Jesus Christ of Latter-day Saints

HANES

SAINT Y DYDDIAU DIWEDDAF,

o'u

SEFYDLIAD YN Y FLWYDDYN 1823,

HYD YR AMSER YR

ALLTUDIWYD TRI CHAN MIL O HONYNT

O'R AMERICA OHERWYDD EU CREFYDD,

YN Y FLWYDDYN 1846.

---

“GWELWCH yn mysg y cenedloedd, ac edrychwch, rhyfeddwch yn arathrol:  
canys gweithredaf weithred yn eich dyddiau, ni choeliwch er ei mynegu i  
chwi.”—HABACUC.

“Canys ni wna yr Arglwydd ddim a'r nas dangoso ei gyfrinach i'w weision y  
prophwydi.”—AMOS.

---

MERTHYR-TYDVIL:

CYHOEDDWDYD, AC AR WERTH, GAN CAPT. JONES.

AC AR WERTH HEFYD GAN LYFRWERTHWYR EREILL.

---

ARGRAFFWYD GAN J. JONES, RHYDYBONT.

# C Y N N W Y S I A D.

	TUD.		TUD.
GWEINIDOGAETH Angylaidd yn Rhe- symol .. .. .	3	at y carcharorion .. .. .	49
Gweinyddiaeth Bresennol Angylion yn Ysgrythyrol .. .. .	6	Gollyngdod y Carcharorion, a'u dyfod- iad i Illinois .. .. .	50
Bodau Angylaidd a'u Dylanwadau .. .. .	9	Araeth y Cadfridog Clark yn Far West	51
Gweinyddiaeth Bresennol Angylion .. .. .	12	Lladfa Waedlyd <i>Haun's Mill</i> , gan lygaid dystion .. .. .	54
Hanes Boreuol Joseph Smith .. .. .	14	Sefydliad Dinas Nauvoo .. .. .	57
Dadguddiad y Llafnau Aur .. .. .	16	Y Cenedon Cyntaf i Loegr, a Gwled- ydd Tramor Ereill .. .. .	58
Desgrifiad o'r Llafnau .. .. .	20	Hanes T. Sharp, a'i gyhoeddiad, a'i gelwyddau ar J. Smith .. .. .	59
Erlidigaeth yn nghylch y Llafnau .. .. .	22	Adnabyddiaeth yr Awdwr gyntaf â Mormoniaeth .. .. .	60
Hanes Cyfieithiad y Llafnau .. .. .	23	Desgrifiad Gweinidog Wesleyaidd o Ddinas Nauvoo, J. Smith, &c. .. .. .	62
Idyfr Mormon—Desgrifiad o hono .. .. .	25	Desgrifiad Boneddwr dibroffes am J. Smith a Nauvoo .. .. .	66
Cyn-breswylwyr America .. .. .	26	Desgrifiad Gohebydd fiduedd y <i>Pella- dium</i> am yr un pethau .. .. .	67
Preswylwyr Iuddewig yr America .. .. .	27	Tystiolaeth Boneddwr a aeth drosodd o Loegr i weled Nauvoo, y Missour- iaid a'r Mormoniaid .. .. .	68
Ymddangosiad Crist i'r Indiaid Am- ericanaidd ar ol ei Adgfydiad—en- rhyfeloedd, ac hanes Mormon .. .. .	31	Hanes John C. Bennett .. .. .	71
Tystiolaethau am Lyfr Mormon .. .. .	33	Merthyrdod Joseph a Hyrum Smith .. .. .	73
Tystiolaethau ychwanegol am Eirwir- edd Llyfr Mormon .. .. .	34	Golygia yn Ngharchar Carthage lle eu saethwyd .. .. .	83
Tystiolaethwyr i'r Llafnau Aur .. .. .	36	Anerchiad y Llywydd Ford at y Cy- hoeddus .. .. .	87
Awdurdodiad Joseph Smith i fedydd- io, pregethu, &c., ynghyd â dechres- ad yr Eglwys .. .. .	37	Cymmeriad Joseph Smith .. .. .	90
Sefydliad y Saint yn Kirtland (Ohio) .. .. .	39	Rhagdraethiad J. Smith o'i farwol- aeth .. .. .	92
Ymfudiad y Saint i Missouri .. .. .	40	Y Terfysgwyr yn llosgi dros 200 o dai y Saint .. .. .	94
Dechreuad eu Herlidigaeth yno .. .. .	41	Alltudiacth yr holl Saint i'r Anialwch	95
Tystiolaeth Hyrum Smith am yr Er- lidigaeth yn Swydd Jackson, &c. .. .. .	42	Hanes y Gwersylloedd cyntaf .. .. .	96
Dyoddefiadau y Saint yn Far West .. .. .	44	Duw yn porthi y Saint â soffieir pan ar newynn .. .. .	100
Creulon Garchariad eu Blaenoriaid .. .. .	45	Y Wasg Americanaidd yn troi o blaid y Saint .. .. .	102
Y Cadfridogion Clark a Wilson yn ymryson pwy a gallai yr anrhydedd o saethu y Carcharorion .. .. .	46		
Arboliad rhyfeddol (1838) 14 diwrnod: carcharu holl dystion y Carcharor- ion gan eu Barnwr .. .. .	47		
Gweinyddu gwenwyn, a ehnawd dynol, i'r carcharorion .. .. .	48		
Creulonderau annynol y <i>grand jury</i>			

# R H A G L I T H.

## ANWYL DDARLLENYDD,—

Dyma ni yn cynhell arnoch un llyfr newydd etto at yr oll a gyhoeddwyd; ond ni chynnygiodd neb arall erioed i elwi llyfr mor newydd, ac mor rhyfedd ei gynnwysiad â hwn. Yn y llyfr hwn ceWel hanes difyrus a gwirioneddol am ddwyfol sefydliad y gyfundraeth hono a elwir "*Mormoniaeth*," neu, yn fwy priodol, crefydd *Saint y Dyddiau Diweddlaf*.

Digonol yw'r holl gyhoeddi, y pregethu, a'r dweyd sydd drwy ein gwlad yn erbyn y gyfundraeth hon, er profi yr ystyrir hi yn wrthddrych teilwng o sylw cyhoeddus, yr hyn sydd gydradd ag addef mai goreu pa fwyaf a feddwn o'i hanes; ac nid amheuir ychwaith a'r nad yn gyferbyniol i'r wybodaeth hono ein galluogir i flurfio barn gywir am dani; canys gobeithiwyd nad oes un dyn yn yr oes oleu hon a foddlonia i gymmeradwyo nac i wrthod cyfundraeth a broffesa fod yn ddwyfol, heb roddi iddi arholiad teg o flaen brawlllys ddiuedd.

Dichon rhai pethau yn y llyfr hwn hefyd ymddangos yn fwy anhygoel ar yr olwg gyntaf nag y profa ymchwiliad manylach eu bod. Etto, ddarllenydd hynaws, tystiwn yn ddifrifol mai cyflwyno hanes cywir o'r gwrthddrych dan sylw yw ein prif amcan, a thystiwn ei fod i'w gael yn y llyfr hwn hyd y cyrhaedda yr hanes; ac nid fel y llyfrau a ysgrifenyd yn ein herbyn, wedi eu sylfaenu ar yr ystorïau a'r chwedlau disail a draethir o ben i ben, ond oddiar y tystiolaethau cywiraf a allem gael, a rhesymau, ffeithiau, ysgrythrau, a gwirioneddau, a ystyriwn yn anwrthwynebol.

Tystied ein hunanymwadiad yn gadael ein holl fasnach, yr hon oedd yn ennillfawr iawn, a dyfod saith mil o filltiroedd o ffordd, ac yna yn cydio yn gyntaf un yn ein hysgrifell, ac yn anturio ein poblogrwydd a ffafir pawb, i ddyrchafu y gyfundraeth ddwyfol hon, ynghyd â chymmeriad ei sylfaenwyr, o'r cyflwr iselaf o warad-

wydd, gan barhau i'w glanhau a'u golchi oddiwrth ystaeniadau a fwrdd arnynt gan eu gelyniaion, fel y trinig *diamond*, nes eu cael erbyn hyn yn deg a hardd yn ngolwg miloedd drwy'n gwlad. Nid ein gallu ni a ychwanega un pelydr at yr hyn ydyw y grefydd hon eisoes, ond tystied hyn oll mai oherwydd ein bod yn gwybod cynt mai gwirionedd yw y cymhellwn hi mor daer i sylw ein cydgenedl anywl. Pa ddyben amgen nâ lles ereill a allasai achosi hyn oll? Nid ehw yw ein dyben, onide ni buasem yn ei chymhell i dylodion, ac yn rhad. Nid anrhydedd, onide yr ydym wedi colli y ffordd i hyny hefyd. O nage, ddarlennydd hynaws, nid amgen ein dyben nag a hysbyswn, sef, fel y mwynhao ereill y lles a'r bendithion dwyfol a radroddwyd i ninnau, ac a adlewir i bob un a ufyddhao i'r gyfandraeth ddwyfol hon. Paham, ynte, nad yw ein tystiolaeth yn gywir yn eich golwg? Yr hyn a welodd y llygaid hyn, yr hyn a glywodd y clustiau hyn, gan lygaid-dystion, ie, yr hyn a *wyddom* am eirwiredd yr hanes canlynol, a gymhellir i'eh sylw yn y llyfr hwn. Cymmerwech ef yn garedig a diduedd; darllenwech ef drwyddo yn bwyllog, gan weddio am Ysbryd y gwirionedd i'eh cynorthwyo i'w iawn farnu; ac os na chewech foddlonrwydd o'i wirionedd cyn codi oddiwrtho, ewch ac ufyddhewch yn gywir i'r drefn a ddengys; ac yna, os na phirawf Daw ei eirwiredd i chwi drwy feithiau digonol, dywedwch mai twyll yw Mormoniaeth, a chydunwn â chwi i'w chyhoeddi felly. Ac o'r ochr arall ynte, y mae y dyn a'i gwrthoda hi a'i phroffion yn ddibrawf yn gwneyd cam â'i enaid ei hun.

Crefwn am gael ein hesgusodi am bob gwallau cyfansoddol neu rammadegol a ddichon fod ynddo; a gweddiwn ar iddo fod yn offerynol i gyfarwyddo pawb a'i darlleno i'r iawn ffordd tua gwyfyd, er eu lles hwy, ac er gogoniant yr Hwn yn unig a deilynga bob mawl. Amen.



# GAU-BROPHWYDI.

“CANYS CYFYD GAU-GRISTIAU, A GAU-BROPHWYDI, AC A RODDANT  
ARWYDDION MAWRION A RHYFEDDODAU, HYD ONI THWYLLANT,  
PE BYDDAI BOSIBL, IE, YR ETHOLEDIGION,”—*Mat.* xxiv, 24.

Yr achos mwyaf neillduol a'n cymhella i sylwi ar y geiriau hyn yn awr ydyw, oherwydd fod, nid yn unig pregethwyr o'r pwlpuadau, ond hefyd awduron ac aelodau yr amrywiol b'eidiau crefyddol drwy'r wlad, yn cyhuddo Saint y Dyddiau Diweddaf o fod yn euog o'r cymmeriad hwn. “Onid yw Crist wedi ein rhybyddio,” meddant, “y deuai *gau-brophwydi*? a dyma hwy eisoes wedi dyfod.” Pan ofynir iddynt pa fodd y gwyddant mai y Saint ydynt, dywedant, “Wel, oherwydd mai hwy yn unig o holl bobl y byd sy'n profesu bod yn brophwydi yn y dyddiau hyn.” Yn ol y resymeg hon, rhaid fod pob un a broffesa fod yn brophwyd, yn yr oes hon, o aughenhaid yn *au-brophwyd*. Os felly, gwna yr un resymeg bob un o'r prophwydi a fu erioed, o'r lleiaf hyd y Prophwyd mawr ei hun, yn *au-brophwydi*, yn gvstal â'r Saint, oherwydd eu bod hwy oll yn eu dydd wedi profesu yr un peth! Beth yw hyn yn well nâ deistiaeth, neu o leiaf y fath ynfyta o ffolineb a thwyll-resymeg! Cyssonach o lawer a fyddai yr haeriad hwn o enau anffyddwyr proflesedig, nac o eneuau y rhai sy'n profesu eu bod yn credu yn y cyn-brophwydi. Nid yw y Saint yn *au-brophwydi* oherwydd fod poblogrwydd yr oes hon yn rhoddi yr enw hwnw arnynt, mwy nag yr oedd crefyddwyr, Rabbis, a Phariseaid yr oes apostolaidd yn profi ein Blaenor mawr a'i brophwydi yn *au-brophwydi*, wrth waeddi hyny o'r pwlpuadau, a chyhoeddi fel o newyddiaduron y wlad, mai *gau-brophwydi* oeddent. Nid ydym yn cofio am un gwir brophwyd a fu ar ein daear ni, a'r nad oedd yr un teulu yu gwaeddi yn unllaf nerth eu pen, “*Gau-brophwyd*,” ar ei ol. a thrwy hyny godi y fath erlidigaeth arno nes ei ferthyru. efallai, yn hwy neu hwyrach; a phan dduwiolaf y prophwyd, uwelaf y gwaeddent hwythau “*gau-brophwyd*” arno, nes ar ol ei farw, credai eu plant mai *gwir* oedd y prophwyd hwnw a laddodd eu tadau am un *gau*.

Mae o bwys i bawb ddeall, pa un ai y Saint, ai eu cyhuddwyr, ynte pwy, yw y *gau-brophwydi*, fel eu gwareder rhagddynt. Cymmyrd ein harwain gan y cyfryw fyddai colli enaid; condemnio y Saint am y cyfryw heb ei profi yn *au-brophwydi*, drwy arholiad teg a **manwl**, fyddai colli enaid y ffordd hono, fel y gwnelai y cyn-oesoedd a wrthodent geuadwri prophwydi Duw, am *au-brophwydi*; canys ni anfonodd Duw brophwyd i'r byd erioed, a'r nad oedd iachawdwriaeth yr oes hono yn dibynu ar eu hufydd-dod i'w genadwri. Os nyny yw y *gau-brophwydi*, dymunem wybod hyny. Yr ydym yn bared i dreial teg ar y pwnc; ac os gellir dwyn cymmaint ag un ysgrythyr i'n **profi** felly, da fyddai genym addef yn onest, gadael y *gau* yn y fan, a cheisio y gwir; canys pa reswm fyddai i ddyn lynu wrth dwyll er colli ei enaid? Pob peth a rydd dyn am ei enaid: felly rhoddwn

ninnau ein proffes, credoau, ffurfiau, a phob peth, i.e., hyd y nod ein bywydau, os bydd raid, er cael y gwir; a dysgwyliwn yr rhesymol i'n cyhuddwyr neidio i'r pen arall o'r glorian, er gweled uwchben pwy, mewn difrif, yr ysgrifenis y "Mene, tekell, upharsin." Y rheol neu y dafol sy'n deg o bob tu, ydyw yr *even balances* hyny ag y pwysai Mab Duw â hwynt, sef—"Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." Darllener Mat. vii, 15—21. "Ymlogelwch rhag gan brophwydi." Gwelir wrth y gwisgoedd defaid am danynt mai proffeswyr a fyddent, ac nid gwawdwyr. Dyma y Saint yn neidio i un pen i'r glorian, gan ddywedyd, "Gwae chwi pan ddywedo y byd yn dda am danoch, canys felly y dywedent lwy am y gan-brophwydi o'ch blaen chwi." Deuwch, chwithau, holl ddawinyddion parchus, holl ddoctoriaid boneddigaidd, a'r holl bregethwyr sy'n cael eich cyfarch â phlygiad gwegil gan bob gwrryw, ac y plyga pob benyw lin wrth eich cwrdd ar yr heol; y rhai ydych yn rhodio ar hyd *imported carpets* i'r lleoedd uchaf yn eich synagogau gwyhion, eich penelinoedd ar glystogau • sidan, *satin, velvet*, o wahanol liwiau. Hawdd yw gwaeddi "gau-brophwydi," wedi dringo mor uchel â hyna; hawdd gan eich hudolion gredu fod y du yn wyn, a'r gwir yn gau, pan y del o'r fath le santiaid â hyna. Ond beth a ddywed Barnwr yr holl ddaear, yr hwn a rodiar ar hyd ein daear ni, heb le i roi ei ben i lawr, na theitl gwell nâ "gau-brophwyd" o'r eisteddleoedd uchel yna? Pwy sy'n llenwi y cymmeriad yna, tybied? Gŵyr ein cyhuddwyr nad y Saint! Etto, ehe Crist, "Pe buasech chwi o'r byd, yna y byd a garasai ei eiddo ei hun; ond myfi a'ch cymmerais chwi allan o'r byd, am hyny y byd a'ch casâ chwi," a gallasai ychwanegu, "ac a'ch galwant yn gau-brophwydi." Mae y dafol o'n hochr yma etto. Ydyw, mae y ffrwythau a ddygir gan ein cyhuddwyr yn gyffredinol, yn profi nad y Saint yw y gau-brophwydi, yn ol yr hyn a ddywed Crist, "Y neb a fyddo fyw yn gyfiawn yn Nghrist Iesu a erlidir." Dynion drwg sy'n erlid, a rhai gwell nâ hwy eu hunain a erlidiant bob amser. Nid y gwir oedd yn erlid ac yn difenwi y gau-brophwydi yn amser yr apostolion; ond, o'r ochr arall yn hollol yr oedd; ac onid yw yr un achos yn dwyn yr un effaith yn awr?

Etto, taflwn un arall o bomgranadau y gau-brophwydi i'r glorian, sef eu gweithredoedd, "Ac a roddant arwyddion mawrion a rhyfeddodau," i'r dyben o dwyllo. Yr unig bwysau a roddant i'n herbyn yn y glorian hon, yw haeru nad ydyw y Saint yn dangos dim arwyddion, nac yn gwneyd dim rhyfeddodau. Wel, ynte, pa fodd y gallant lenwi y cymmeriad o gau-brophwydi, yn ol geiriau Crist? canys yr oedd y gau-brophwydi i *wneuthur* y naill a'r llall, i.e., "a roddant arwyddion mawrion." Addefa ein cyhuddwyr ormod yma i wasanaethu eu hochr lwy—maent yma yn profi nad y Saint yw y gau-brophwydi; a chan iddynt addef mor deg, chwiliwn pwy ydynt, ynte. "O, nid ni," meddant, "oherwydd nid ydym ni yn credu mewn 'arwyddion a rhyfeddodau' yn yr oes hon." Aroswech dipyn, eich ffrwythau a'ch profant, a'ch geiriau a'ch barna. Ouid chwychwi sy'n ceisio arwyddion gan y Saint, ac yn begian arnynt wneyd gwyrrth o hyd, gan addaw y credwch mai gwir brophwydi ydynt os gwnant un wyrth fach i chwi? Ac oni welwch mai y *gau*, ac nid y *gwir*, a roddai arwyddion!

Os nad ydych yn profi eich hunain yn au-brophwydi, amlwg eich bod yn rhoddi y gert o flaen y ceffyl, i.e. o chwth yn hollol! Beth! "farnwyr yr oes," "bugeiliaid praidd yr Iesu," wedi sierhau mai gau-brophwydi yw y Saint, a rhybyddio eu defaid i beidio a'n gwrandaw; ac wedi'r cwbl, yn dweyd y credant yn hollol groes i'r hyn a wyddant yn sicr, os cent ond un wyrth fach! ac yna y perswadiant eu praidd i adael eu corlanau hwy, a myned at y "*bleiddiaid*." Dyma wyrth o'u heiddo eu hunain o'r diwedd! Dyma i'w praidd "arwyddion" o'r dall yn tywys y dall i gorlan y "*bleiddiaid*," i.e. dyma ni wedi dyfod o hyd i'r "gau-brophwydi sy'n gwneuthur rhyfeddodau er twyllo" eu praidd, druan!! Pwyser yn fanwl; dacw *au* yn y naill ben i'r glorian, a *gwir* brophwyd yn y pen arall. Pa un o'r ddau sydd yn gofyn am wyrth? Nid y *gwir* gan y *gau* erioed, er profi y *gau* yn wir; ond y *gau* gan y *gwir*, bob amser! Pwy yw'r trymaf yn y glorian hon etto? "Wrth eu ffrwythau" fyth! Ond, meddant, "y mae eich proffes o'ch gallu gwyrthiol chwi yn efelyebu y 'gau-brophwydi' yn fwy na nym sydd yn gwadu y fath allu yn hollol." I'r glorian â hyn etto. Nid yw y Saint erioed wedi proffesu "gallu gwyrthiol" o hon- ynt eu hunain, ond yn unig eu bod yn weision i'r Duw hwnw a addef- wch chwi yn anglyfnewidiol, i.e. yr hwn yr addefwch ei fod wedi gwneyd gwyrthiau yn y cyn-oesoedd, ac os *anghyfnewidiol*, a'u gwna etto, ond cael yr un fath offerynau, drwy yr arferiad â'r unrhyw fodd- ion yn ol ei addewid. Onid dyma *broffes* pob *gwir* brophwyd? Yma etto mae eich *proffes* chwi yn wahanol i'r *gwir*, a ninnau yr un fath â hwy. A ddichon yr un *broffes* brofi Saint y Dyddiau Diweddaf yn *au*, ag a addefir yn brofion cedyrn o *wirionedd* Saint y dyddiau gynt? Enghraifft o *logic* "gau-brophwydi" yw hyn. Nid dyben gweision Duw yn rhoddi arwyddion, na dyben Duw ychwaith, oedd er profi eu bod yn wir brophwydi, oherwydd ni buasai felly ond un ffordd i brofi y *gau* a'r *gwir* hefyd. Dyben y *gau* yn rhoddi arwyddion fyddai er cael gan ddynion gredu mai *gwir* oeddynt; ond y ffordd y gwnai y *gwir* brophwydi oedd, traddodi cenadwri eu Duw—"pregethu Crist croeshoeliedig," &c., gan gyfeirio at reswm eu gwrandawwyr; ac *wedi* iddynt gredu ac ufyddhau y genadwri, derbyniant hwythau yr Ysbryd Glân, yr hwn oedd yn nerthol weithio ynddynt a thrwyddynt, i'w galluogi i wneuthur rhyfeddodau mawriou, ond oll "er llesad ac adeiladaeth i'r eglwys," ac nid er argyhoeddi y byd. Nid yw yr ychydig eithriadau a wnaeth Duw i hyn, yn rhoddi hawl i neb o'i weision eithro oddiwrth y rheol ddwyfol, sef—"A'r arwyddion hyn a *ganlynant* y credinwyr," a gofyn iddynt *ragffaenu*, fel y gwna "gau-brophwydi." Nid oes bosibl twyllo yn y naill fodd; mae y llall, sef yr arwyddion *gau*, yn bwrpasol i dwylo.

Pc dywedasai Crist, Ymogelwch rhag *prophwydi*, yna buasai rhyw esgusawd dros ddedfryd galed ein barnwyr arnom. Ond eu gwaith hwy yn unig yw cyssylltu y tair llythyren arall, sef *gau*, wrth y Saint? gwnant hyn hefyd fel y gwnai pob "gau-brophwydi" â'r *gwir*, sef heb gynnyg un math o brawf o hono. Ac heriwn holl bobl y byd, i brofi fod y Saint yn teilyngu y cymmeriad yna. Onid yw gwaith Crist yn gosod y *gair gau*, yn profi y byddai *gwir* brophwydi? neu ynte, onid yw yn air gormodol o enau yr hwn a ddywedodd, "Am bob *gair*

segur a ddywedo dynion. y rhoddant gyfrif yn y farn." Ystyriwn fod hyn yn gasgliad naturiol.

Nid y ni sydd i brofi yr amser y cyfeiria Crist ato; ond profa ein cyhuddwyr mai yr oes hon ydyw, drwy haeru mai nynt yw y "gau-brophwydi" oedd i ddyfod! ac er mwyn cyfleusdra, a'u dala yn eu rhwyd eu hunain, cymmerw eu hamseryddiad hwy yn ganiataol. Ac felly rhaid iddynt addef cyflawniad yr adnodau blaenorol sydd mewn cyssylltiad, yn enwedig adn. 14, "A'r efengyl hon am y deyrnas a bregethir drwy'r holl fyd er TYSTIOLAETH i'r holl genedloedd, ac YNA Y DAW Y DIWEDD." Nid rhaid ond chwilio pa fath efengyl oedd hono y cyfeiria ati, a'i chymharu â'r holl opiniynau a'r credoau a bregethir gan holl grefyddwyr yr oes hon, er gwelod nad atynt hwy y cyfeiria Crist yma. Efengyl yn cael ei chadarnhau gan ddoniau ysbrydol yn wyrthiol, oedd Crist a'i apostolion yn ei phregethu, yr hon oedd "yn ailu Duw er iechydwrïaeth," nid mewn gair yn unig, ond mewn nerth, ac mewn sicrwydd mawr yn yr Ysbryd Glân." "Efengylau" heb ddoniau ysbrydol, na'u heisieu, yw "efengylau" sectyddol yr oes hon; heb ddim *sicrwydd*, ond *ammheuaeth* ac ofnau hyd wely anghy; ac "Ysbryd Glân" yn eu tywys wrth eu teimladau, nid "i undeb y ffydd," ond i rai cannoedd o wahanol ffyddiau a chredoau! Efengyl yn dysgu ei hufyddion i weddio dros y rhai wnel niwed iddynt, ac a'u herlidiant, oedd efengyl Crist; a'r "hon" y cyfeiria efe ati a gair ei phregethu yn y dyddiau y dywed ein cyhuddwyr y deuai y gau brophwydi, sef y Saint, ebe hwy. Ond, "efengylau" yn dysgu eu gwrandawwyr i erlid pawb a'r nad ydynt yn perthyn i'w plaid hwy, i alw y Saint yn "gau-brophwydi," a'u dysgu i floeddio hyn arnynt o'r pwlpudau, ac ar hyd yr heolydd, yw "efengylau" dauinyddion yr oes hon. "Byddwch awyddus i brophwydo"—"deisyfwech ddoniau ysbrydol, ond yn hytrach fel y prophwydoch," oedd efengyl Paul. "Gwaeddwch gau-brophwydi ar bwy bynag a broffesa ysbryd y brophwydoliaeth," yw efengylau yr oes hon. Hollol groes i'w gilydd, onide? Gwelir ynte, yn ol eu hamseryddiad hwy a geir-wiredd Iesu Grist, fod rhyw brophwyd i ddod a phregethu "yr efengyl hon," sef efengyl a'i harwyddion gyda hi, fel yr "hon" a bregethai Crist ei hun. Ac yn ol eu haddefiad hwy, yn awr y pregethid hi, ac y byddai "gau brophwydi" yn gwaeddi "Gau-brophwydi" ar ei phregethwyr! Diolchwn iddynt am yr addefiad hwn, ond rhyfeddwn yn sawr pa fodd y gallant gyflawni prophwydoliaethau sydd mor eglur, a phrofi eu hunain yn "au-brophwydi" yn ngwyneb y fath oleuni! Nid gwiw iddynt ymguddio o'r arholiad yn eu pwlpudau, a gwaeddi "gau-brophwydi" ar y gwir mwyach: y mae dynion rhesymol yn dechreu deall pa fodd i *hudio* y glorian eu hunain. "Dylai y gau-brophwydi sy'n byw mewn tai gwydr beidio dechreu tafu ceryg at ereill." Gwelir eu bod yn rhy brin o bwysau yn y glorian o hyd. Y maent wedi addef fod prophwydi fel y Saint i ddyfod yn yr oes hon, ac i bregethu "yr efengyl hon" a bregetha'r Saint, ac y caent yr un driniaeth ac a gânt hwy! Ac y mae ein cyhuddwyr heb ddwyn un prawf etto i'n herbyn.

Gan fod yn ddyledus i'r cyhoedd wybod pwy yw y gau-brophwydi, a'u hadnabod, rhoddwn holl bregethwyr yr oes sy'n gwadu bodoliaeth

gwir brophwydi, na'r anghen am danynt, yn y glorian etto, a cheir gwelod heth yw eu pwysau hwynt! Pwy, a pheth a broffesant hwy i fod yn mblith cedyrn yr oes? Atebwn, i ni eu clywed yn croch-lefain o'r pwlpu'dau, "Gau-brophwydi yw y Seintiau, ond nyni ydynt weinidogion efengyl Crist, cenadon dros Dduw, tystion yr Iesu, &c." Pwyser hyn yn fanwl, a gwelir ei fod yn *contradiction in terms*, yn anhosi-blrwydd i fod yn wir! Beth, dynion yn haeru ar yr un anadliad eu bod yn dystion dros Grist, ac yn gwadn ysbryd y brophwydoliaeth! Dyred di â'th glorian yn mlaen, Ioan, er pwyso y dywediadau rhyfedd hyn! Dad. xix. 10, "Canys tystiolaeth yr Iesu ydyw ysbryd y brophwydoliaeth." Dyred dithau Paul, "Eithr ni o'i neb ddywedyd yr Arglwydd Iesu, eithr trwy yr Ysbryd Glau." Beth a ddywed Crist? "Hyn yw y bywyd tragywyddol, iddynt dy *adnabod* di yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonai'ti, Iesu Grist." Dywed dithau Pedr, pa fodd y dywedaist ti mai Iesu "yw y Crist, Mab y Dduw byw?" Ai trwy weled ei wyrthiau, ei arwyddion, a'i ryfeddodau? Nage. "Nid cig a gwaed a ddadguddiodd hyn i ti, ond fy Nhad, yr hwn sydd yn y nefoedd." sef drwy ddadguddiad uniongyrchol drwy yr Ysbryd Glân, fel y dywed Paul uchod, na allai neb ddywedyd hyn un ffordd arall, ond drwy yr Ysbryd Glân, yr hwn, ebe Ioan, 'yw tystiolaeth yr Iesu,' yr hon yw 'ysbryd y brophwydoliaeth.' Ac felly pe gofynwn, pa fodd y dicheon dynion fod yn meddu yr Ysbryd Glân, neu yn genadon dros Grist, dan wadu ysbryd y brophwydoliaeth? Fe'm sionid pe ceid dynion o ddoethineb yn eu plith hwy oll i ateb! Ac etto, mor afresymol i ddynion haeru eu bod yn gyfryw nes y gallont ateb! A phed atebent yn iawn, byddai raid iddynt ddod yn Formoniaid, neu Saint, fel ninnau, ac adlef efengyl yn dwyn dadguddiad, ac ysbryd y brophwydoliaeth, neu fod heb yr un. Ac felly yn y naill ben i'r glorian yn ogystal a'r llall, profent eu hunain yn *au-brophwydi*.

Onid at yr amser hyn, a'r crefyddau hyn y cyfeiriai Paul; 2 Tim. iv, 3. "Canys daw yr amser pryd na ddyoddefant athrawiaeth iachus [fel yr efengyl '*hon*,' ysbryd y brophwydoliaeth a'r doniau ysbrydol]; eithr yn ol eu chwantau eu hunain y pentyrant iddynt eu hunain athrawon [nid wedi eu hanfon gan Dduw drwy ddadguddiad, &c., megys cynt], gan fod eu clustiau yn merwino;" adn. 4. "Ac oddiwrth y gwirionedd [a bregethai Crist a'i apostolion] y troant ymaith eu clustiau [gau waeddi gau-brophwydi, &c.], ac at chwedlau y troant."

Ni wyddom am ddim tebyeach i'r "chwedlau" na'r ysteriau, y deongliadau priod, a'r dychymmygion a bregethant o'r pwlpu'dau, dan yr enw "efengyl." Oud amlwg yw fod Paul yn pwyso y dafol hon i'r llawr o blaid y Saint etto, ac yn codi meddwl ein gwrthwynebwyr i'w llygaid eu hunain, nes y rhaid eu bod yn ddall oni welant eu hunain mewn drych, ac edifarhau, a dychwelyd i'r iawn. Fe welodd Pedr y rhai hyn hefyd drwy ysbryd y brophwydoliaeth. Gwel eu hanes yn gywir yn 2 Pedr 11, 1—"Eithr bu hefyd gau-brophwydi yn mblith y bobl [gynt], megys ag y bydd gau-athrawon yn eich plith chwithau [yn yr amser dyfodol]; y rhai yn ddirgel a ddygant i mewn heresiau dinystriol [megys cyfnewid rhai, a gwadu ereill, o ordinhadau eglwys Crist, sef y doniau, &c.], a chan wadu yr Arglwydd, yr hwn a'u pryn-

Yn awr, anwyl frodyr a chwiorydd yn Nghrist, wedi chwilio pa amser yr oedd ysbryd y brophwydoliaeth drwy Grist a'i weision yn cyfeirio ato, yaghyd â pha nodau, arwyddion, a ffrwythau, a ddygai y gau-brophwydi a'r gau-athrawen ag y rhybyddiant ni o'u dyfodiad, yr ydym yn diolch i Dduw Dad, a'n Harglwydd Iesu Grist, nad yw yr un o'r nodau hyny, mewn un modd, yn dynodi "Saint y Dyddiau Diweddaf." Ond gallwn ni, yn anad pawb, orfoleddu yn yr arholiad a ddengys ein bod ni yn parhau yn yr athrawiaeth hõno a draddodwyd i ni gan Dduw, ein bod wedi ufyddhau o galon i ammodau y mabwysiad, ac wedi derbyn Ysbryd y mabwysiad, trwy y hwn yr ydym yn llefain, Abba Dad. Ymdrechwn, ynte, er ein cael yn deilwng i fyned i mewn i'w orphwysfa ef. Gan ein bod wedi cael y fath fraint annhraethol ag ufyddhau i'r efengyl dragwyddol, yr hon sy'n dwyn bywyd ac anlygredigaeth i oleuni, ac yn cael bod yn deilwng i dderbyn doniau yr Ysbryd Glân, er ein perffeithio, a'n haddasu i ogoniant ein Harglwydd, pa fath ddynion a ddylem ni fod mewn santiaidd ymarwedd- iad a duwioldeb, yn dysgwyl am, ac yn brysio at, ddyfodiad dydd Duw, yn yr hwn y nefoedd gan losgi a ymollyngant, a'r defnyddiau gan wir wres a doddant? Eithr nefoedd newydd, a daear newydd, yr ydym ni, yn ol ei addewid ef, yn eu dysgwyl, yn y rhai y mae cyflawnder yn cartrefu.

Gwnawn ein goreu ar rodio yn addas i'r alwedigaeth ncfol i'r hon y'n galwyd. Byddwn ddifrycheulyd oddiwrth y byd, rbag troi y cloff allan o'r ffordd; a gweddiwn dros y rhai a wnel niwed i n, ac a'n galwant yn *au-brophwydi*, gan dosturio wrthynt tra bo bosibl, a'u hesgusodi dan y fantell o anwybodaeth. Pan waeddant "gau-brophwydi" arnoch, os gallwch eu cael at y maen prawf, sef y Bibl, a'u pwysio yn y glorian gywir, sef wrth eu ffrwythau, ymdrechwech ddangos iddynt mewn ysbryd addfwyn, eu bod fel Dafydd gynt, yn rhoddi y ddedfryd arnynt eu hunain yn eu hanwybodaeth. Gan fod yn wylriadwrus na chydymffurfioch â'r rhai sydd yn profesu rhith duwioldeb, ac yn gwadu ei grym hi, cofiwech gynghor Judas, "Y bydd yn yr amseroedd diweddaf watwarwyr yn cerdded yn ol eu chwantau annuwiol eu hunain. Y rhai hyn yw y rhai sy'n eu *didoli* eu hunain [nid anffydawyr, ond *didoli* eu hunain yn sectau amrywiol] yn anianol, heb fod yr Ysbryd ganddynt." Nid fod heb *ysbryd*, ond heb yr Ysbryd Glân yn ei ddylanwadau dwyfol, a'i ddoniau ysbrydol; canys nid arweinir yr Ysbryd Glân heb i *didoli* oddiwrth eglwys Crist, neu oddiwrth y ffydd hõno a roddwyd unwaith i'r saint; canys un Ysbryd Duw sydd, ac y mae hwnw yn tywys i *undeb* y ffydd, ac nid i *didoli* neu *ymeranu*. Ymgedwech oddiwrth y cyfryw. Chwi a ellwch brofi yr ysbrydion ai o Dduw y maent. Profwch hwynt wrth Ysbryd Duw ynte, fel na'ch llihier gan ysbrydion cyfeiliornus, wedi i chwi unwaith dõianc oddiar y cyfryw. "Eithr chwyehwi, anwyl, gan eich adeiladu eich hunain yn eich *santeiddiaf* ffydd, a gweddio yn yr Ysbryd Glân, ymgedwech yn nghariad Duw, ac yn nghwlwm tangnefedd, gan ddal eich gafael yn y gobaith a osodwyd o'ch blaen, fel y derbynioch y goron annifanedig a roddwyd i gadw i chwi y rhai ydych yn cyd-ddyddedf â'n Harglwydd Iesu Grist, pan ddel efe i'w ogoneddu yn ei saint, oherwydd i'm tystiolaeth ni, [yn hytrach na'r gau-brophwydi,] gael ei chredu yn eich plith chwi." A'r Duw tragwyddol, eich Tad nefol, a'ch cadwo yn ddiogel rhag pob bleiddiaid, gau-athrawon, gau-brophwydi, a rhag pob drwg, hyd oni ddelo, yw ein taer weddi dros ei holl Saint. Amen.

---

MERTHYR-TYDFIL: CYHOEDDWDYD AC AR WERTH GAN D. JONES.

ARGRAFFWD GAN JOHN JONES, RHYDYBONT.









